

MYNEDIAD AM DDIM – Y STORI WIR

“Mi ganaf gân am y dyddiau cynnar” 1974-75

Y flwyddyn – 1974. Y lle – Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Dyna lle cychwynodd Mynediad am Ddim eu taith cerddorol. Myfyrwyr yn Aber oedd yr aelodau gwreiddiol – chwech ohonyn nhw : Emyr Wyn, Robin Evans a Mei Jones oedd y tri chanwr ac Iwan Roberts (gitar a mandolin), Graham Pritchard (ffidil, mandolin a phiano) a Dewi Jones (corn ffrengig) alias Dewi “French Horn” - am resymau amlwg – oedd yr offerynwyr.

Roedd hi'n gyfnod cyffrous ym myd canu ysgafn Cymraeg – roedd cenhedlaeth newydd o grwpiau wedi codi yn nechrau'r 70au i ddilyn yr arloeswyr cynnar fel Dafydd Iwan, Heather Jones, Meic Stevens a Huw Jones a grwpiau fel y Tebot Piws a'r Dyniadon Ynfyd Hirfelyn Tesog – enwau newydd fel Sidan, Hergest, Ac Eraill ac Edward H Dafis. Roedd dylanwad canu gwerin Celtaidd, yn enwedig Iwerddon a Llydaw yn sgil llwyddiant Alan Stivell, yn drwm; er enghraifft, ail-enwyd prif raglen deledu pop Cymraeg, “Disc a Dawn”, yn “Gwerin 74”.

Er fod Mynediad am Ddim yn grŵp newydd, roedd gan yr aelodau oll brofiad amrywiol o berfformio – bu Emyr a Robin yn Eisteddfodwyr profiadol am flynyddoedd a recordiodd Emyr record pan yn fachgen ifanc iawn; roedd Graham a Dewi'n gyn-aelodau o Gerddorfa Ieuencid Cymru ac Iwan a Mei eisoes wedi ffurfio un grwp yn Aber – Coes Glec - ac wedi dechrau cyfansoddi caneuon.

Dod at eu gilydd o ran hwyl wnaeth y chwech yn wreiddiol – yn benodol ar gyfer cynrychioli Aber yn yr Eisteddfod ryng-golegol oedd i'w chynnal ym Mangor y flwyddyn honno. Cawson nhw lwyddiant yn fan'ny a doedd dim troi nôl. A hwyl oedd y nod wedi hynny hefyd – gan ddilyn traddodiad y Tebot Piws a'r Dyniadon gyda chyfuniad o ganu gwerinol “ffwrdd-a-hi” myfyrwyr Aber oedd yn cael ei ymarfer yn y “Marine” a'r “Skinners” bob nos Sadwrn, a chaneuon gwreiddiol hwyliog (a fe allai'r hwyl gynnwys gwisg “drag” a dangos pen-ôl ar lwyfan). Roedd hyd yn oed yr enw yn jôc – yn dilyn esiampl Ac Eraill, ymgais i ddrysu cyhoeddwyr a darllenwyr poster nosweithiau llawen.

Aed ati i gyfansoddi mwy o ganeuon gwreiddiol – gyda phob cyfuniad posib o ddau neu dri aelod – ac ambell ffrind – yn bwrw iddi. Ond dyfodiad aelod newydd mwy profiadol fyddai'n rhoi cyfeiriad i'r grwp.

“Dyn ifanc ac unig fel fi” 1975-76

Ym 1975, wedi cyfnod yn y coleg ym Mangor, glaniodd Emyr Huws Jones yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru yn Aberystwyth. Roedd hwn eisoes wedi profi llwyddiant ysgubol gyda'r Tebot Piws, ac er nad oedd yn berfformiwr naturiol, roedd ganddo ddawn cyfansoddi, fel y profodd caneuon fel “Yr Hogyn Pren” a “Hylo Dymbo”. A'r Tebot wedi hen orffen, roedd e'n dal i gyfansoddi – yn fwy toreithiog nag o'r blaen – ond heb lwyfan i'w ganeuon. Roedd yr amseru'n

berffaith felly. Cytunodd i gyfrannu caneuon at Mynediad am Ddim ac i gryfhau'r cyfeiliant ar y gitar a banjo.

Yn fuan wedi i "Ems" ymuno a'r grŵp, daeth cyfle i fynychu stiwdio recordio am y tro cynta i gyfrannu un gân at record hir aml-gyfrannog er budd mudiad Adfer, sef **Lleisiau** – ac un o ganeuon Ems gafodd ei dewis, sef "Padi", y gynta o nifer yn son am ei gefndir yn Sir Fon.

Buan iawn y creodd Mynediad am Ddim argraff ar lwyfannau Cymru a chafwyd wythnos arbennig o lwyddiannus yn Eisteddfod Cricieth ym mis Awst. O ganlyniad, daeth cyfle i recordio record hir i gwmni Sain – **Mynediad am Ddim** neu "Wa McSbredar" fel mae pawb yn ei galw hi ar ol un o ganeuon mwya poblogaidd y cyfnod. 14 o ganeuon amrywiol – y mwyafrif o'r cyfnod cyd-sgwennu, pedair gan Ems a dwy gân draddodiadol, un yn offerynnol a'r llall yn ddi-gyfeiliant.

Cafodd **Mynediad am Ddim** dderbyniad gwresog iawn ac yn ei sgil daeth mwy o wahoddiadau i berfformio'n fyw ac ar deledu. Roedd cwmni Sain yn awyddus i recordio ail record hir cyn gynted a phosib – a chododd y syniad o recordio'r grŵp yn fyw o flaen cynulleidfau. Aed ati i drefnu noson yn y "Pier" yn Aberystwyth, ond – och a gwae – methiant fuodd yr ymgais i "ddal" asbri byw'r grŵp ar blastig: un gân o'r noson welodd olau ddydd ar y record nesa.

Erbyn 1976, roedd ychydig o fynd a dod wedi digwydd: gadawodd Dewi "French Horn" yn fuan ar ol recordio'r LP gynta a daeth gitarydd arall i chwyddo'r rhengoedd wrth i Alun "Sbardun" Huws symud i weithio yn Aberystwyth. Roedd hwn hefyd wedi bod yn aelod o'r Tebot Piws a wedi hynny Ac Eraill, oedd newydd roi'r gorau iddi a roedd cael cyfle i ymuno a grŵp arall yn yr un traddodiad yn apelio'n fawr ato fe - ac yn gaffaeliad pendant i Mynediad.

"Mhell i fwrdd ar draws y mor" 1976-77

Mae'r grŵp yn talu oedd teitl yr ail record hir – cyfeiriad at y drefn o'r cychwyn fod enillion y grŵp yn sicrhau bwyd, diod a llety yn ol yr angen i bawb oedd yn cyfrannu at eu llwyddiant. Eto, 14 o ganeuon, ond y tro hwn roedd mwy o gyfeiriad pendant: ar wahan i ddwy gân, roedd y cyfan naill ai o waith Ems neu'n ganeuon neu alawon traddodiadol – cyfuniad sy'n dal yn sail i berfformiad y grŵp hyd heddiw.

Yn fyw, roedd pethau'n mynd o nerth i nerth – a gorwelion yn ehangu. Yn ogystal a theithio'n helaeth trwy Gymru, mentrodd y grŵp i Lwerddon ym 1976 (gyda Ronw Protheroe'n cynorthwyo ar y gitar – un o nifer o bobol fyddai'n llenwi bwlch dros y blynyddoedd). Ond roedd yna nifer o newidiadau ar fin digwydd. Yn gynta, penderfynodd Ems gefnu'n gyfangwbl ar berfformio, rhywbeth nad oedd erioed wedi'i fwynhau. Yn ffodus i'r grŵp, parhaodd i gyfrannu caneuon, gan fynd ymlaen i'w sefydlu'i hun fel un o gyfansoddwyr mwya poblogaidd y byd canu ysgafn Cymraeg - a daeth aelod newydd i gymryd ei le ar lwyfan.

Erbyn hyn, roedd aelodau Mynediad am Ddim yn dechrau dilyn gyrfaedd ledled Cymru ond Aber oedd canolfan y grwp o hyd ac o rengoedd y myfyrwyr yno y cipiwyd Peter Watcyn Jones. Roedd Pete wedi bod yn aelod o'r grŵp Josgin yn Ysgol Rhydfelen ac yn gitarydd a mandolinydd profiadol. Unwaith eto, amseru da.

Daeth 1977 â mwy o newidiadau a chyfeiriad newydd; uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd y drydedd record hir a thaith i Lydaw. Enw'r record oedd **Rhwng saith stôl**, ac er nad oedd Ems yn bresennol, ei ganeuon e ("Cofio dy wyneb", "Yn y dre 1913", "Hi yw fy ffrind" ac eraill) oedd yr asgwrn cefn. Hefyd, cafwyd cyfraniadau geiriol gan Lyn Ebeneser, Harri Webb a Myrddin ap Dafydd, alaw gan Meredydd Evans a dwy gan offerynnol gwerinol eu naws gan Pete. Dyma fyddai cyfraniad ola Sbardun i'r grŵp – gadawodd ar ol y recordiad i ganolbwyntio ar gyfeilio i Tecwyn Ifan am gyfnod cyn tawelu'n gerddorol am flynyddoedd. Yn niwedd y 90au, daeth i'r amlwg eto fel cyfansoddwr i gantorion fel Bryn Fon, John ac Alun, Linda Healy a Iona ac Andy.

Mei oedd y nesa i adael – i ddilyn gyrfa lwyddiannus iawn fel actor a dramodydd – er y byddai'n perfformio'n achlysurol gyda Mynediad am rai blynyddoedd.

"Ffal di di ral dal dadl am do" 1978-79

Bellach, pump aelod oedd ar ol – Emyr Wyn, Robin, Iwan, Graham a Pete – ac erbyn i'r record weld golau ddydd, roedd y grŵp wedi teithio Llydaw yng nghwmni Dafydd Iwan – profiad arbennig yn bersonol a phroffesiynol, lle gwelwyd mwy o bwyslais ar yr ochor werinol, gyda chanu di-gyfeiliant yn arbennig o boblogaidd o flaen cynulleidfa Lydewig.

Yn sgil profiadau lwerddon a Llydaw, penderfynwyd canolbwyntio fwyfwy ar ganu gwerin traddodiadol. Trefnwyd taith arall gyda Dafydd Iwan – trwy Gymru y tro hwn – ac aed ati i recordio casgliad o ganeuon gwerin, gan anelu at farchnadoedd Celtaidd a thu hwnt yn ogystal a Chymru.

Y canlyniad oedd cyhoeddi **Torth o Fara** ym 1978 – 17 o ganeuon, gyda phwyslais cyfartal ar y lleisiol a'r offerynnol – a'r clawr a'r nodiadau aml-ieithog yn cyhoeddi delwedd newydd. Yn ei sgil, teithiodd y grŵp i Lydaw eto (gyda Mei'n dychwelyd dros dro) dros yr haf a mwynhau llwyddiant pellach yno. Dyma'r agosaf fuodd Mynediad am Ddim i droi'n grŵp proffesiynol llawn-amser; trafodwyd y posibiladau, ond ddiwyddodd e ddim. Petai? Petase? Pwy a wyr?

Ar ddiwedd y flwyddyn, symudodd Pete – yr unig un ar ol yn y coleg - i Ffrainc am rai misoedd fel rhan o'i gwrs, felly roedd angen eilydd yn ystod ei absenoldeb. Yn Aberystwyth y cafwyd hyd i'r ateb unwaith eto – roedd Geraint Davies yn gweithio yno, newydd orffen cyfnod hir gyda'r grŵp

Hergest , wedi rhannu llwyfan gyda Mynediad droeon a wedi llenwi bwlch iddyn nhw yn achlysurol cyn hyn. Daeth yntau â thinc o ganu roc/gwlad i swm Mynediad am Ddim

O fewn misoedd, ym mis Mehefin 1979, dychwelodd y grŵp i Lydaw (eto gyda Mei yn ei ôl), ond y tro hwn am ddiwrnod yn unig! Yn sgil llwyddiant teithiau '77 a '78, derbyniwyd gwahoddiad i Wyl yn Guipavas, ger Brest, lle'r oedd y trefnwyr mor awyddus i gael Mynediad am Ddim, llogwyd awyren fechan o Gaerdydd er mwyn hwyluso pethau – gadael am hanner dydd ar y Sadwrn, canu nos Sadwrn, nol i Gaerdydd erbyn amser cinio ddydd Sul.

Yn ystod yr un cyfnod, recordiwyd y gynta o ddwy gaset i'r Mudiad Ysgolion Meithrin – casgliad o hwiangerddi a chaneuon eraill i blant bach o'r enw **Hwyl wrth ganu** (dilynodd ail gaset **Hwyl yr Wyl**, sef casgliad tebyg, y tro hwn ar thema'r Nadolig, ym 1986).

“Ac mae ci yn rhywle'n cyfarth ar y lloer” 1979-82

Ond dyddiau digon di-gyfeiriad ac ansicr oedd y rhain – dychwelodd Pete yn ol o Ffrainc ac os na ofynwyd i Geraint aros, wnaeth neb ofyn iddo fe fynd chwaith – mae'r eilydd yn dal ar y cae. Tro Graham oedd hi nesa i grwydro o'r nyth – gadawodd ei swydd fel athro i ymuno â'r grŵp gwerin Ar Log a gwireddu'r freuddwyd o droi'n gerddor llawn-amser. Roedd e bellach yn aelod o ddau grŵp, ac, er fod y galwadau i Mynediad berfformio'n dod yn gyson, roedd hyn, a'r ffaith fod y lleill ar chwâl yn ddaeryddol trwy Gymru'n gwneud dod at ei gilydd yn anos.

Ym 1980, recordiwyd pedair o ganeuon traddodiadol eu naws ar gyfer casgliad aml-gyfrannog **Dewch i Ganu** i gwmni Sain ond. er fod yna sawl cynnig, doedd yna ddim ysfa i gynhyrchu record hir newydd. Perfformiadau byw oedd yn cael y flaenoriaeth bellach, ac er nad oedd y rhain mor niferus ag ym y gorffennol, arafu am gyfnod wnaeth pethau yn hytrach na dod i stop.

Erbyn hyn, roedd rhai o'r aelodau eraill yn perfformio gydag ail grwpiau hefyd – Geraint gyda'i grŵp roc ysgafn Y Newyddion am rhyw flwyddyn ac Iwan gyda'r grwpiau gwerin Cilmeri ac yna Pedwar yn y Bar. A gadael Mynediad fuodd hanes Iwan - i ganolbwyntio ar Pedwar yn y Bar; y tro nesa iddo fe berfformio gyda'r bois fyddai yn Eisteddfod Genedlaethol Mon 1999 mewn noson deyrnged i Ems..

Yn ei le, ym 1982, gwahoddwyd Rhys Dyrfal Ifans i ddod â dimensiwn newydd i'r grŵp – gitarydd a chanwr bâs yw Rhys gyda blynyddoedd o brofiad mewn grwpiau fel Josgin (gyda Pete), Hergest (gyda Geraint) a Bando. Tua'r un adeg, daeth diwedd cyfnod Ar Log fel band llawn-amser gan roi cyfle i Graham wneud cyfiawnder â phawb - a dyma gychwyn ar gyfnod o sefydlogrwydd i'r grwp sydd wedi para hyd heddiw.

“Dwi ddim yn cerdded mor syth, dyw 'ngwallt i 'mor hir” 1982-??

Y chwe aelod hyn – Emyr Wyn, Robin, Graham. Pete. Geraint a Rhys – sydd wedi cadw fflam Mynediad am Ddim yn fyw am yr ugain mlynedd dwetha, a hynny trwy berfformio'n gyson ledled Cymru. Yn niwedd y 90au, ychwanegwyd Delwyn Sion (ffoadur arall o Hergest) fel aelod achlysurol a chyfranodd yntau a Geraint ganeuon newydd i'r pair.

Ym 1992, i ddathlu penblwydd yn 18 oed, â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth, man geni'r grwp, cyhoeddwyd casgliad o'r caneuon mwya poblogaidd, rhai wedi'u hail-recordio, ac ambell gân newydd, ar y CD **Mynediad am Ddim 1974-1992**, ynghyd â llyfr lloffion **Digon Hen i Yfed** yn olrhain hanes y grŵp. Yna ym 1993, cyhoeddwyd tâp fideo o berfformiad byw o flaen cynulleidfa yn stiwdio Barcud, Caernarfon, **Dyma Mynediad am Ddim**

Yn ystod yr wythdegau hwyr a'r nawdegau, aeth y llwyfannau'n fwy rhywsut, gyda thŵf gwyliau gwerin trwy Gymru; mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys perfformio yng Ngwyl y Cnapan bum gwaith gan rannu llwyfan gydag arwyr fel Davy Spillane a'r Dubliners ac yn 2003, derbyniwyd gwahoddiad gan Bryn Terfel i ymddangos gerbron tua wyth mil o bobol yng Ngwyl y Faenol..

2004 oedd penblwydd Mynediad am Ddim yn 30 oed, gyda chrysau T, capiau a'r wefan hon i gofnodi'r achlysur – a mae'r hwyl yn parhau. “Rwy'n mynd yn hen.....Ac rwyf finnau'n gallach”? Go brin.